



Undebau credyd



**Gwasanaeth
Cyngtori Ariannol**

- ➡ Beth yw undeb credyd?
- ➡ Sut y gallant helpu chi i reoli'ch arian
- ➡ Sut i ymuno

Yma i'ch helpu

Mae **Gwasanaeth Cynggori Ariannol** yn annibynnol. Sefydlwyd gan y llywodraeth i helpu pobl wneud y mwyaf o'u harian trwy gynnig cyngor diduedd a di-dâl. Yn ogystal â chynghori ar forgeisi, rydyn ni'n cynnig gwybodaeth ar ystod eang o themâu ariannol eraill.

Ewch i'n gwefan heddiw am gyngor, awgrymiadau ac offer i'ch helpu gwneud penderfyniadau gwybodus a chynllunio ar gyfer dyfodol gwell.

 moneyadviceservice.org.uk/cy

Cyngor di-duedd am ddim

 ar-lein

 dros y ffôn

Mae'r canllaw hwn yn addas i chi os ydych am ganfod sut all undebau credyd eich helpu i reoli eich arian. Ar ôl ei ddarllen, byddwch yn gwybod:

- sut maen nhw'n gweithio
- sut allwch ymuno ag undeb credyd
- sut allwch gynilo neu fenthylgy gydag un

Cynnwys

Beth yw undeb credyd?	2
Sut all undeb credyd eich helpu i reoli eich arian	3
Cynilion a benthyca	4
Ymuno ag undeb credyd	6
Os yw pethau'n mynd o chwith	8
Cysylltiadau defnyddiol	9

Beth yw undeb credyd?

Mae undebau credyd yn sefydliadau cynilo a benthycu cydweithredol cymunedol, pan fydd aelodau'n cronni'u cynilion er mwyn benthycu i'w gilydd a helpu i redeg yr undeb credyd. Maent yn gweithio'n eitha tebyg i fanc, heblaw ei fod yn cael ei berchen a'i redeg er budd yr aelodau sy'n defnyddio'i wasanaethau. Fel arfer caiff aelodau cydweithredol y bwrdd eu hethol yn gyffredinol o blith yr aelodau.

Mae undebau credyd wedi dod yn fwy poblogaidd yn y blynyddoedd diweddar ac mae miloedd o weithwyr ar draws Prydain yn cael budd o ddiidyniadau cyflogres i undeb credyd sy'n rhoi dull hawdd a chyfleus iddynt i gynilo a benthycu.

Aelodaeth

Gallwch ymuno ag undeb credyd os oes gennych chi 'gwlwm cyffredin' gydag aelodau eraill, megis:

- byw neu weithio yn yr un ardal
- gweithio i'r un cyflogwr, neu
- berthyn i'r un undeb llafur, eglwys neu gymdeithas arall.

Mae gan bob un undeb credyd ei 'gwlwm cyffredin' ei hun, ond gan amlaf, caiff ei selio ar un o'r enghreifftiau uchod.

Gwasanaethau a gynigir gan undebau credyd

Mae pob undeb credyd yn cynnig cyfrifon cynilo a benthycu. Mae rhai (undebau credyd mwy o faint gan amlaf) hefyd yn cynnig:

- yswariant cynilion a diogelwch benthyciad
- ISAs (Cyfrifon Cynilo Unigol)
- cynlluniau angladd
- morgeisi
- cardiau rhagdaledig neu gyfrifon cyfredol
- cyllido a rheoli dyledion.

Pwyntiau allweddol

➔ Mae aelodau undebau credyd yn rhannu unrhyw elw sydd yn dod iddynt am nad oes yna gyfranddalwyr allanol.

➔ Mae dros 1.3 miliwn o bobl ym Mhrydain yn perthyn i undeb credyd erbyn hyn.

Ffynhonnell: Cymdeithas Undebau Credyd Prydain (ABCUL) 2017

Sut y gallant eich helpu chi i reoli'ch arian

Pam dewis undeb credyd?

Gall undeb credyd eich helpu i gael eich cyllid mewn trefn.

Mae undebau credyd yn bodoli i wasanaethu eu haelodau. Mae'n bosibl y bydd undeb credyd yn fwy parod i'ch helpu na banc stryd fawr neu gymdeithas adeiladu os oes gennych incwm isel, neu os nad oes gennych hanes blaenorol o fenthycu.

Yn gyffredinol, maen nhw'n:

- annog pobl i gynilo'n rheolaidd – yn wythnosol, bob pythefnos neu bob mis.
- gadael i chi gynilo symiau bychain
- fodlon rhoi benthyc symiau bychain, ac yn
- cytuno i fenthyciadau ar sail eich gallu i'w had-dalu a faint sydd angen arnoch.

Cynilo gydag undeb credyd

Gallwch dalu arian i mewn i'ch cyfrif mewn sawl ffordd:

- mewn mannau casglu lleol
- yn syth o'ch cyflog drwy ddiidyniadau cyflogres (os yw'r cyflogwr yn gallu casglu taliadau yn y modd hwn)
- trwy archeb sefydlog neu Ddebyd Uniongyrchol, neu
- os ydych chi'n hawlio budd-daliadau'r wladwriaeth, trwy drefnu iddynt gael eu talu i mewn i'ch cyfrif undeb credyd.

Ni fydd pob undeb credyd yn cynnig y dulliau uchod i dalu arian i'ch cyfrif.

Gallwch godi arian:

- mewn pwyntiau casglu lleol, er enghraifft drwy drosi sic yn arian parod mewn swyddfa'r post leol, neu mewn arian parod mewn swyddfa undeb credyd
- drwy drefnu bod taliadau yn cael eu gwneud yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc os ydych yn ddeiliad ar un (gan amlaf drwy ddull talu a elwir yn daliadau cyflymach)
- gyda llyfr pas mewn rhai undebau credyd llai
- gyda rhai undebau credyd, trwy ddefnyddio cerdyn debyd mewn peiriant codi arian.

Cynilion a benthycia

Mae rhai undebau credyd yn cynnig cyfradd llog sefydlog ar gynilion, ond mae'r mwyafrif yn talu swm blynyddol neu fwy rheolaidd a elwir yn 'ddifidend'.

Y difidend yw'r ffordd mae'r undeb credyd yn rhannu ei elw gyda'i aelodau. Bydd y swm a gewch, os bydd un, yn amrywio gan ddibynnu ar faint o elw mae'r undeb credyd wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn. Bydd cyfraddau'r adenillion yn amrywio gan ddibynnu ar y math o gyfrif sydd gennych.

Mae rhai undebau credyd yn cynnig cyfrifon cynilo at y Nadolig a bydd yn rhaid rhoi rhybudd os ydych eisiau cymryd eich arian allan cyn mis Tachwedd bob blwyddyn. Gallai hyn fod yn ffordd dda o gynilo ar gyfer y Nadolig gan na fydddech yn cael eich temtio mor hawdd efallai i gymryd eich arian allan o'i gymharu â chyfrif cynilo arferol.



Defnyddiwch ein **Cyfrifiannell cynilo** i ganfod sut all eich cynilion dyfu yn y dyfodol neu i'ch helpu i ddeall sut allwch gyrraedd eich nod cynilo

moneyadvice.service.org.uk/cy/tools/cyfrifiannell-cynilo



Benthycia gan undeb credyd

Mae gan undebau credyd wahanol ffyrdd o roi benthycy arian. Bydd rhai yn rhoi benthycy i chi cyn gynted ag ymunwch, er y byddant angen sicrhau bod gennych chi ddigon o arian ar ôl talu'ch biliau i fedru fforddio ad-dalu'ch benthyciad.

Bydd rhai eraill yn benthycia i chi pan fyddwch wedi dangos eich bod yn gallu cynilo'n rheolaidd. Gallai olygu cynilo am rai wythnosau cyn y gallwch wneud cais i fenthycia ganddynt.

Mae undebau credyd fel arfer yn benthycia symiau bychain i unrhyw bwrpas; i dalu am nwyddau'r cartref, cost y Nadolig neu i drwsio'r car, er enghraifft.

Gall y mwyafrif o undebau credyd fenthycia arian am hyd at bum mlynedd gyda benthyciad heb ei ddiogelu, a hyd at 10 mlynedd gyda benthyciad wedi'i ddiogelu.

Mae benthyciad wedi'i ddiogelu ynghlwm wrth un o'ch asedau – eich car neu'ch cartref gan amlaf. Os na wnewch chi ad-dalu'ch benthyciad, bydd gan yr undeb credyd hawl i werthu'r ased hwnnw i adfer ei arian.

Nid yw benthyciad heb ei warantu yn cael ei ddiogelu gan unrhyw ased.

Gall rhai undebau credyd fenthycia symiau mwy dros gyfnodau hirach, er enghraifft i brynu car neu i dalu am welliannau i'ch cartref, ond gall y rhain fod yn fenthyciadau wedi'u diogelu.

Pan fyddwch yn benthycia gan undeb credyd, gallech gael yswiriant bywyd am ddim i sicrhau gwerth y benthyciad. Golyga hyn y bydd yr yswiriant yn ad-dalu'r benthyciad os byddwch yn marw cyn ei dalu'n ôl yn llawn. Os nad ydych yn gwneud eich taliadau, gall undebau credyd, os bydd angen, adfer yr arian sy'n ddyledus:

- drwy ddefnyddio asiantaethau casglu dyledion
- drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) os ydych chi'n hawlio budd-daliadau'r wladwriaeth
- drwy'r Llys Sirol os ydych yn gweithio, neu
- drwy gymryd sicrwydd sydd ynghlwm wrth y benthyciad.

Costau benthycia

Ar gyfer benthyciadau llai dros gyfnodau byrrach mae undebau credyd yn codi cyfraddau llog llawer is ar fenthyciadau o'i gymharu â darparwyr benthyciadau stepen drws a diwrnod cyflog. Gall benthyciadau mwy sylweddol fod yn is na 10% APR (yn aml yn is na chyfraddau llog rhai banciau).

Bydd y cyfraddau llog a godir yn amrywio yn ddibynnol ar y math o fenthyciad ond ni chaiff fod yn uwch na 3% o log y mis (yn cyfateb i APR o 42.6%).

Gwiriwch gyda'ch undeb credyd lleol i gael ei gyfraddau llog ar fenthyciadau. Yn gyffredinol, ni fydd undebau credyd yn codi tâl os talwch eich benthyciad i gyd yn gynnar.

Am ragor o wybodaeth a chyngor am y gwahanol fathau o fenthycia a sut i sicrhau y gallwch fforddio ei dalu'n ôl, ewch i moneyadvice.service.org.uk/cy

Enghraifft

Os bu i chi fenthycia £500 dros chwe mis gan undeb credyd sy'n codi APR o 42.6% o log y flwyddyn, a thalu'r arian yn ôl yn brydlon bob mis, dylech ddisgwyl ad-dalu £93.99 bob mis am 6 mis a fydd yn costio cyfanswm o £563.93 i chi (yn cynnwys £63.93 o log).

Os benthyciwch swm tebyg gan ddarparwr benthyciadau stepen drws byddai'r gost dair neu bedair gwaith yn fwy na hynny.

Pwyntiau allweddol

- ➔ Mae undebau credyd yn ffyrdd hawdd o gynilo a benthycia
- ➔ Gall undebau credyd eich helpu i roi trefn ar eich cyllid.

Ymuno ag undeb credyd

Yr hyn i'w hystyried cyn ymuno

- ➔ Gwiriwch sut allwch chi dalu arian i mewn a'i dynnu allan, a'i fod yn addas ar eich cyfer chi.
- ➔ Gwiriwch faint maen nhw'n rhoi benthyg fel arfer ac am ba hyd. Mae rhai yn benthyca symiau bach dros gyfnodau byr ac mae eraill yn benthyca mwy dros gyfnodau hirach.
- ➔ Gwiriwch p'un ai fod rhaid i chi gael hanes o gynilo cyn eu bod nhw'n gallu rhoi benthyg arian i chi, os yw benthyca yn bwysig i chi.
- ➔ Gwiriwch pa wasanaethau eraill maent yn cynnig, cyfrifon cynilo'r Nadolig, cyfrifon cyfredol neu yswiriant, er enghraifft.
- ➔ Defnyddiwch ein hoffer **Cynllunydd cyllideb** ar-lein i'ch helpu i gyfrifo faint allwch chi fforddio cynilo –
- ➔ moneyadvice.service.org.uk/cy/tools/cynllunydd-cyllideb

Dod o hyd i undeb credyd

Mae rhai undebau credyd yn masnachu fel 'banciau cymunedol' neu dan enwau eraill nad yw'n cynnwys y geiriau 'undeb credyd'. Rhaid i bob undeb credyd gynnwys y geiriau 'undeb credyd' yn eu henwau cofrestredig.

Os nad ydych chi'n siŵr a oes yna undeb credyd yn eich ardal chi, defnyddiwch offer chwilio ar-lein neu ffoniwch un o'r cymdeithasau undeb credyd i ganfod beth sydd ar gael yn lleol.

- ➔ Dewch o hyd i undeb credyd yn eich ardal chi yn findyourcreditunion.co.uk
- ➔ Yng Ngogledd Iwerddon: Cynghrair Undebau Credyd Iwerddon a Ffederasiwn Undebau Credyd Ulster. Creditunion.ie ufcu.co.uk

Am fanylion ynglŷn â chymdeithasau undeb credyd, ewch i *Cysylltiadau defnyddiol* – tudalen 9.

Gwirio undeb credyd

Rheoleiddir undebau credyd gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) a'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (PRA). Golyga hyn bod rhaid iddynt ddilyn rheolau penodol a chwrdd â safonau penodol. Rhaid i'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus gymeradwyo unrhyw bobl sy'n dal swyddi pwysig gyda'r awdurdod.

Os oes gennych chi gynilion gydag undeb credyd, mae'ch arian yn cael ei ddiogelu hyd at £85,000 pe bai'r undeb credyd yn methu. Yr un yw'r cyfyngiad ar gyfer cyfrifon cadw banc neu gymdeithas adeiladu.

Gall aelodau undebau credyd fynd at y Gwasanaeth Obwdsmon Ariannol ac at y

Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol (FSCS) hefyd os aiff pethau o chwith.

Cynllunydd cyllideb

Defnyddiwch ein **Cynllunydd cyllideb** i gyfrifo sut allwch wneud newidiadau er mwyn gwneud i'ch arian fynd ymhellach.

Bydd yr offeryn hwn yn rhoi darlun clir i chi o'r arian sy'n dod i mewn a faint sydd raid ei dalu allan.



Ewch i

➔ moneyadvice.service.org.uk/cy/tools/cynllunydd-cyllideb

Os bydd pethau'n mynd o chwith

Cwynion

Os aiff pethau o chwith, cysylltwch â'r undeb credyd yn gyntaf i roi'r cyfle iddynt i gywiro'r hyn rydych yn anfonlon amdano. Rhaid iddo ddilyn gweithdrefn benodol wrth ddelio â chwynion.

Os ydych yn anfonlon gyda sut mae'r undeb credyd wedi datrys eich cwyn neu os yw'r ddau barti yn cytuno, gallwch gysylltu â'r Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol.
Gweler *Cysylltiadau defnyddiol* – tudalen 9.

Iawndal os yw undeb credyd yn methu

Os nad yw undeb credyd yn medru neu'n annhebygol o dalu hawliadau yn ei erbyn, efallai y gallech gael iawndal gan yr FSCS. Mae'r swm o iawndal y gall yr FSCS ei dalu i bob aelod yn gyfyngedig i £85,000. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r FSCS. Gweler *Cysylltiadau defnyddiol* – tudalen 9.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am gwynion neu hawlio iawndal yn moneyadvice.service.org.uk/cy

Cysylltiadau defnyddiol

Gwasanaeth Cyngori Ariannol

Mae'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol yn wasanaeth annibynnol ac wedi'i sefydlu gan y llywodraeth i helpu pobl wneud y mwyaf o'u harian trwy roi cyngor ariannol diduedd a di-dâl i bawb ledled y DU – ar-lein a dros y ffôn.

Rydyn ni'n rhoi cyngor, awgrymiadau ac offer ar ystod eang o themâu gan gynnwys rheoli arian o ddydd i ddydd, cynilion, cynllunio'ch ymddeoliad a'ch dyfodol, yn ogystal â rhoi cymorth a chyngor am ddigwyddiadau sy'n newid bywyd megis cychwyn teulu neu golli swydd.

Am gyngor a mynediad at ein hoffer a chynllunwyr, ewch i moneyadvice.service.org.uk/cy

Neu ffoniwch linell Gwasanaeth Cyngori Ariannol ar **0800 138 0555**

Typetalk
1800 1 0800 915 4622

Cymdeithasau masnach undeb credyd

Cymdeithas Undebau Credyd Prydain (ABCUL)

0161 832 3694
abc.ul.org

Cynghrair Undebau Credyd yr Alban

0141 774 5020
scottishcu.org

Cynghrair Undebau Credyd Iwerddon

+353 1 614 6700
creditunion.ie

Ffederasiwn Undebau Credyd Ulster

028 9030 1204
ufcu.co.uk

Gwasanaethau Undeb Credyd Ace

029 2067 4851
acecus.org

UKCreditUnions Ltd (UKCU)

01706 214322
ukcu.coop

Cwynion ac iawndal

Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol

0800 023 4567 or 0300 123 9123
financial-ombudsman.org.uk

Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol (FSCS)

0800 678 1100 or 020 7741 4100
fscs.org.uk





**Gwasanaeth
Cyngori Ariannol**

Undebau credyd yw un o'r canllawiau sydd ar gael gan y Gwasanaeth Cyngori Ariannol. I gael golwg ar ystod lawn ein canllawiau ac i ofyn am gopiau, ewch i

**🕒 [moneyadvice.service.org.uk/
canllawiau-printiedig-am-ddim](https://moneyadvice.service.org.uk/canllawiau-printiedig-am-ddim)**

Llinell Cyngor Ariannol **0800 138 0555***
Typetalk **1800 1 0800 915 4622**

Os hoffech y canllaw hwn mewn fformat Braille, print bras neu ar ffurf sain cysylltwch â ni ar y rhifau uchod.

*Galwadau am ddim. Mae'n bosibl y byddwn yn recordio neu'n monitro galwadau, er mwyn ein helpu i gynnal a gwella ein gwasanaeth.

Gwybodaeth yn gywir ar adeg argraffu (Ebrill 2018).
Adolygir y canllawiau hyn unwaith y flwyddyn.

Ebrill 2018

© Gwasanaeth Cyngori Ariannol Ebrill 2018
Cyfeirnod: CU_Apr2018_Edition1_Welsh